Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
South Wales Police and Crime Commissioner

# Crynodeb o'r Ymgynghoriad ar Braesept yr Heddlu

## 1. Cyflwyniad

Mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu gyfrifoldeb o dan 'Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol' i gasglu barn y cyhoedd am faterion sy'n ymwneud â phlismona. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori â phreswylwyr ynghylch y swm y maent yn ei gyfrannu at blismona fel rhan o'u Treth Gyngor, cyn pennu lefel praesept yr heddlu a chlustnodi cyllideb yr heddlu.

Yn dilyn proses ymgynghori helaeth a gynhaliwyd gan y Comisiynydd yn ystod hydref 2024, rhannodd dros 5,000 o bobl eu hadborth o ran pa feysydd gwasanaeth y dylai'r Comisiynydd eu blaenoriaethu yn eu barn nhw. Datgelodd yr adborth a rannwyd ddyhead cyffredin am heddlu mwy ymgysylltiol, integredig a gweladwy, sydd â'r gallu i fuddsoddi mewn technoleg er mwyn ymateb i fathau newydd o droseddau a rhai sy'n dod i'r amlwg. Er mwyn cyflawni hyn yn effeithiol, mae'r Comisiynydd wedi bod yn ystyried yn ofalus y ffordd orau o ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael, a'r cyllid ychwanegol sydd ei angen i sicrhau y parheir i fuddsoddi mewn plismona lleol, atal troseddau a'r cymorth a ddarperir i ddioddefwyr.

Cyn i'r Comisiynydd wneud penderfyniad ar gyllideb yr heddlu, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn sicrhau bod preswylwyr yn cael y cyfle i rannu eu barn am y cynigion ynghylch praesept yr heddlu. Mae'n werth nodi y rhagwelwyd y cynnydd arfaethedig wrth aros am gadarnhad o gyllid gan Lywodraeth y DU – felly roedd cryn ansicrwydd a nifer o ryngddibyniaethau o ran union lefel y cyllid y byddai Heddlu De Cymru yn ei chael.

## 2. Dull gweithredu

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o wyth wythnos, rhwng dydd Llun 25 Tachwedd 2024 a dydd Llun 13 Ionawr 2025. Fel rhan o hyn, lansiwyd arolwg cyhoeddus a chyfres o stondinau dros dro ledled ardal Heddlu De Cymru.

**2,400+** nifer y bobl a fynegodd ddiddordeb mewn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad

**1,567** nifer y bobl a gwblhaodd yr arolwg

**126** nifer y bobl a rannodd eu hadborth yn ein stondinau dros dro

**700** nifer y bobl a gwblhaodd yr arolwg yn rhannol

**34** nifer y bobl nad oeddent yn gymwys i gwblhau'r arolwg am eu bod yn byw y tu allan i ardal Heddlu De Cymru

### 2.1 Yr arolwg

Fel rhan o'n hymrwymiad i wella ein dulliau ymgysylltu yn barhaus a lleihau rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan, cafodd yr arolwg ei gyfieithu i ieithoedd ychwanegol. Dyma'r tro cyntaf i ni dreialu'r dull gweithredu hwn. I'n helpu i nodi beth oedd y prif ieithoedd, heblaw Cymraeg a Saesneg, gwnaethom gyfeirio at ddata o Gyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Yn seiliedig ar hyn, cyfieithwyd yr arolwg i'r pum prif iaith, sef Arabeg, Bengaleg, Mandarin, Pwyleg a Rwmaneg. Roedd yr arolwg hefyd ar gael yn Gymraeg, Saesneg, ar ffurf hawdd ei deall ac mewn print bras.

**Arolwg ar gael mewn sawl fformat:**

- 7 iaith wahanol
- Hawdd ei ddarllen
- Print bras
- Ar-lein + Copi Papur
- Cymraeg a Saesneg

## 2.2 Stondinau dros dro

Mewn ymdrech i gyrraedd y rhai nad ydynt o bosibl yn ymgysylltu â ni drwy ein sianeli ar-lein fel arfer, cynhaliwyd saith digwyddiad dros dro wyneb yn wyneb ledled De Cymru. Ymgysylltodd 150 o aelodau o'r cyhoedd â'r tîm, a gwnaeth 126 ohonynt bleidleisio yn yr arolwg. Aeth rhai aelodau o'r cyhoedd â chopïau papur o'r arolwg neu bosteri â dolenni cod QR gyda nhw er mwyn ei gwblhau yn eu hamser eu hunain.

Stondinau **7** | Achosion o ymgysylltu **150+** | Cyfranogwyr **126**

**Lleoliadau**

- Canol Tref Pontypridd
- Canolfan Siopa Santes Tudful
- ASDA
- Amgueddfa Genedlaethol y Glannau
- Canolfan Siopa McArthur Glen
- Canolfan CF61
- Cymdeithas Gymunedol Gilfach Goch

## 2.3 Dosbarthiad ffisegol

Mewn ymdrech i gyrraedd pobl nad oeddent yn gallu ymgysylltu â ni'n ddigidol a hyrwyddo gweithgareddau ymgysylltu ymhellach, cafodd posteri a chopïau papur o'r arolwg eu dosbarthu i'r ardaloedd cyfagos yn dilyn digwyddiadau dros dro. Ymwelwyd ag oddeutu 25 o grwpiau/busnesau gwahanol yn bersonol a dosbarthwyd dros 100 o bosteri. Roedd y graffigau ar y posteri yn benodol i'r ardal, gan dynnu sylw at bresenoldeb a gwaith y Comisiynydd mewn cymunedau lleol ledled De Cymru.

Dosbarthwyd dros **100** o bosteri'n bersonol

Ymwelwyd â **25+** o grwpiau/ busnesau

## 2.4 Partneriaethau

Gwnaethom gysylltu â thros 300 o sefydliadau partner a chynrychiolwyr cymunedol ledled De Cymru er mwyn ein helpu i ehangu cyrhaeddiad ein harolwg drwy eu rhwydweithiau a'u sianeli cymunedol eu hunain. O ganlyniad i'r cymorth a gawsom gan ein partneriaid, rhannwyd yr arolwg â phobl na fyddem o bosibl yn eu cyrraedd drwy ein sianeli ein hunain fel arfer. Roedd y mecanweithiau hyn yn cynnwys Paneli Dinasyddion Awdurdodau Lleol, hysbysfyrddau cymunedol a chylchlythyrau.

Cysylltwyd â **300+** o sefydliadau

**Cawsom ein cefnogi gan sefydliadau a rannodd yr arolwg drwy eu sianeli** = Paneli Dinasyddion | Hysbysfyrddau cymunedol | Cylchlythyrau

**Sut y clywodd pobl am yr arolwg:**

Dywedodd bron hanner yr ymatebwyr eu bod wedi cael gwybod am yr arolwg drwy ohebiaeth a gawsant gan eu cyngor lleol neu sefydliadau cymunedol. Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd gwaith partneriaeth a sut mae'n ein helpu i ehangu ein cyrhaeddiad, yn enwedig â chynulleidfaoedd nad ydynt yn ymgysylltu â ni fel arfer.

- **48%** Cyngor lleol/sefydliad cymunedol
- **32%** Cyfryngau cymdeithasol
- **14%** Mewnrwyd HDC
- **3%** Grwpiau diogelwch cymunedol/cymdogaeth


# 3. Hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol

## 3.1 Cyrhaeddiad organig

Cafodd yr arolwg ei hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol 73 o weithiau ar ein llwyfannau ar X, Facebook ac Instagram. Mae hyn yn cynnwys naw hysbyseb y talwyd amdanynt a rannwyd ar y cyd ar lwyfannau Meta (Facebook ac Instagram). Arweiniodd y 73 o bostiadau hyn at gyfanswm o 61,532 o argraffiadau (sawl gwaith y cawsant eu gweld ar sgrin), 773 o achosion o ymgysylltu (ymateb, rhannu a gwneud sylw) a chliciwyd ar ddolenni i'r arolwg 443 o weithiau.

Postiadau **73** | Argraffiadau **61,532** | Achosion o ymgysylltu **864** | Cliciau ar ddolenni **443**

Cafodd postiadau y nifer mwyaf o argraffiadau drwy ein sianeli Facebook organig, a chyfrannwyd yn helaeth at hyn drwy rannu postiadau'n uniongyrchol â grwpiau cymunedol lleol. Fodd bynnag, daeth y mwyafrif helaeth o'r cliciau ar ddolenni o ganlyniad i ddeunydd hyrwyddo y talwyd amdano. Mae'r siartiau isod yn rhoi dadansoddiad o'r ffordd y gwnaeth defnyddwyr edrych ar y postiadau ar ein llwyfannau gwahanol a rhyngweithio â nhw.




### 3.2 Deunydd hyrwyddo y talwyd amdano

Mewn ymdrech i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, a gwella ein hymdrechion i ymgysylltu ag ardaloedd sydd â llawer o amrywiaeth ac ardaloedd â lefelau ymateb isel, clustnodwyd cyllideb fach ar gyfer deunydd hyrwyddo y talwyd amdano ar ein sianeli Facebook ac Instagram. Rhoddwyd naw hysbyseb y talwyd amdanynt ar draws ein llwyfannau Meta (Facebook ac Instagram), gan dargedu ardaloedd penodol ledled De Cymru. Roedd yr hysbysebion hyn ar waith am dros 20 diwrnod, gan wario cyfanswm o £51.91, a gwnaethant arwain at 269 o gliciau ar ddolenni i'r arolwg. Mewn 20 diwrnod, roeddent yn gyfrifol am 60.72% o'r holl gliciau ar ddolenni (postiadau organig a deunydd hyrwyddo y talwyd amdano) drwy gydol yr ymgynghoriad cyfan.




### 3.3 Grwpiau cymunedol ar-lein

Rhannwyd postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol 158 o weithiau ar Facebook yn uniongyrchol â grwpiau cymunedol ledled De Cymru. O ganlyniad i hyn, roedd modd rhannu'r arolwg yn uniongyrchol â chalon cymunedau lleol, gan hyrwyddo cyrhaeddiad ehangach ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd. Roedd y postiadau a rannwyd â'r grwpiau hyn yn gyfrifol am 72.89% o'r argraffiadau organig drwy Facebook, ac 86.81% o'r cliciau organic ar ddolenni. Cafodd postiadau eu treialu ar 'Nextdoor' hefyd, sef ap cymunedol i gymdogaethau lleol.

## 4. Canlyniadau'r Arolwg

### 4.1 Ymatebion


Er i fwy na 2,200 o bobl ymgysylltu â'r arolwg, dim ond 1,567 o bobl a gwblhaodd yr arolwg. Mae'r canlyniadau canlynol yn adrodd ar ganfyddiadau'r ymatebion a gwblhawyd. Cwblhaodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (98%) fersiwn Saesneg yr arolwg. Mae'r siart isod yn rhoi dadansoddiad o'r ymatebion ar gyfer pob fersiwn o'r arolwg:

| Fersiwn | Nifer | % |
|---|---|---|
| Saesneg | 1544 | 98% |
| Cymraeg | 11 | 0.70% |
| Hawdd ei darllen | 8 | 0.50% |
| Mandarin | 3 | 0.10% |
| Pwyleg | 1 | 0.0.6% |
| Bengaleg | 0 | 0% |
| Arabeg | 0 | 0% |
| Rwmaneg | 0 | 0% |

## 4.2 Nifer yr ymatebion fesul sir

Mae'r map isod yn dangos nifer a chanran yr ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn byw ym mhob sir. O Gaerdydd y cafwyd y nifer uchaf o ymatebion sef 747 (47.7%). Gan fod nifer yr ymatebion o Gaerdydd yn anghymesur o uchel, mae canlyniadau'r arolwg wedi cael eu pwysoli er mwyn lleihau'r duedd samplu. Mae pwysoli yn helpu i leihau tuedd drwy roi mwy o bwysoliad i ddemograffeg neu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a llai o bwysoliad i rai sydd wedi'u gorgynrychioli. Mae'r cywiriad hwn yn lliniaru effaith tuedd ar ganlyniadau'r arolwg.


| | Number of Responses | % | % of SWP Area | Variance |
|---|---|---|---|---|
| Pen-y-bont ar Ogwr | 156 | 10.0% | 11.0% | -1.1% |
| Caerdydd | 747 | 47.7% | 27.5% | 20.2% |
| Merthyr Tudful | 106 | 6.8% | 4.5% | 2.3% |
| Castell-nedd Port Talbot | 81 | 5.2% | 10.8% | -5.6% |
| Rhondda Cynon Taf | 173 | 11.0% | 18.0% | -7.0% |
| Abertawe | 141 | 9.0% | 18.1% | -9.1% |
| Bro Morgannwg | 163 | 10.4% | 10.0% | 0.4% |
| | 1,567 | | | |





## 4.3 Cyfraniadau at braesept yr heddlu

I gynorthwyo penderfyniad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu cyn pennu cyllideb yr heddlu ar gyfer 2025/26, gofynnwyd i breswylwyr i ba raddau roeddent yn cefnogi pob un o'r cynigion posibl i gynyddu elfen blismona'r Dreth Gyngor. Roedd bron hanner yr ymatebwyr yn cefnogi cynnydd, gyda lefelau'r gefnogaeth yn lleihau ychydig wrth i symiau'r braesept gynyddu. Mae'r siart isod yn dangos yr ymatebion ar gyfer pob cynnydd:


### Cynnydd o £1.67 (5.67%)





### Cynnydd o £2.00 (6.8%)




### Cynnydd o £2.33 (7.9%)




Fel opsiwn amgen i'r arolwg, rhoddwyd y cyfle i aelodau o'r cyhoedd a ymgysylltodd â thîm y Comisiynydd mewn digwyddiadau stondinau dros dro rannu eu hadborth ar y cynnydd arfaethedig drwy bleidleisio. O gyfanswm o 126 o bleidleiswyr, roedd 62% yn cefnogi'r cynnydd uchaf, sef £2.33. Roedd 19% yn cefnogi cynnydd o £2.00, roedd 10% yn cefnogi cynnydd o £1.67, ac nid oedd 8% yn cefnogi unrhyw un o'r cynigion arfaethedig i gynyddu.



## 4.3 Themâu a gododd o adborth

Er mwyn ein helpu ni i ddeall y rhesymau pam roedd pobl naill ai'n 'cefnogi', yn 'ansicr' neu 'ddim yn cefnogi' cynnydd tuag at gyllid yr heddlu, cafodd yr ymatebwyr y cyfle i rannu eu hadborth â ni drwy destun rhydd.

### Ymatebwyr a oedd yn cefnogi cynnydd

Roedd ymatebwyr a oedd yn cefnogi cynnydd yn cydnabod y galw ar blismona a phwysigrwydd cynnal adnoddau er mwyn "lleihau unrhyw effeithiau ehangach ar doriadau cyllidebol" a "chynyddu cefnogaeth i'r heddlu gymaint â phosibl". Roedd llawer o ymatebwyr hefyd yn teimlo bod cynnydd rhesymol yn dderbyniol ar yr amod bod "buddion gweladwy" a "gwelliannau amlwg mewn plismona". Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr, er eu bod yn cefnogi cynnydd, eu bod yn teimlo'n gryf y dylid blaenoriaethu'r cyllid er mwyn "helpu i wneud swyddogion yn fwy gweladwy" a "buddsoddi yn yr ardal leol". Mae'r adborth isod yn dangos rhai o'r pwyntiau hyn ymhellach:

> *Mae cynnydd o £2 y mis bendant yn ymddangos yn bosibl a gobeithio y byddai'n lleihau unrhyw effeithiau ehangach ar doriadau cyllidebol. Yn fy marn i, oni bai ein bod yn cynnal y lefelau sydd ar waith ar hyn o bryd o ddifrif, byddwn ond yn mynd i fwy o gostau ar draws meysydd ehangach o'r gwasanaethau cyhoeddus.*

> *Rwy'n fodlon talu mwy o gyfraniad ar yr amod bod buddion gweladwy a'i fod yn teimlo fel pe bai'r arian wedi gwneud gwahaniaeth mewn cymunedau*

> *Yr un ddadl bob blwyddyn. Mae pawb yn cynyddu eu costau, cynghorau, cyfleustodau ac ati. Mae cynnydd rhesymol yn dderbyniol, ond mae'n rhaid iddo fod yn rhesymol.*

> *Rwy'n cefnogi'r cynnydd uwch os yw'n golygu y bydd presenoldeb yr heddlu yn fwy amlwg mewn cymunedau lleol a bod POB trosedd yn cael ei hystyried o ddifrif, gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol, dwyn cerbydau ac ati*

### Ymatebwyr a oedd yn ansicr

Nododd ymatebwyr a oedd yn ansicr a oeddent yn cefnogi cynnydd er bod y cynnydd arfaethedig yn ymddangos yn gymharol isel, nid oedd y ffigurau hyn yn ystyried y cynnydd ychwanegol yr oedd pobl yn debygol o orfod ei dalu tuag at y Dreth Gyngor a gwasanaethau eraill. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod angen gwybodaeth ychwanegol arnynt, megis "sut roedd arian wedi cael ei wario'n flaenorol" a "pha wasanaethau penodol fyddai'n cael eu gwella", er mwyn gwneud dewis ar sail gwybodaeth. Hefyd, dywedodd rhai ymatebwyr nad oeddent wedi'u hargyhoeddi "y byddai'r arian yn cael ei wario'n ddoeth". Mae'r adborth isod yn dangos rhai o'r pwyntiau hyn ymhellach:

> *Mae angen ailwampio gwariant presennol gyda'r nod o dynhau a symleiddio cyllidebau cyn rhoi mwy o gyllid*

> *Os mai dyma oedd yr unig gynnydd mewn alldaliadau byddai'n benderfyniad hawdd, ond byddai hyn yn gynnydd ar lawer mwy*

> *Rwy'n hapus i gefnogi cyllid i'r heddlu ond nid wyf yn argyhoeddedig bod yr arian sydd ar gael ar hyn o bryd yn cael ei wario'n ddoeth.*

> *Mae angen rhagor o fanylion ar y cefndir a pham ein bod yn y sefyllfa hon.*

### Ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi

Nododd nifer o ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi cynnydd eu bod eisoes yn "wynebu anawsterau ariannol" a bod yr "argyfwng costau byw" a diffyg cynnydd mewn cyflogau sy'n cyfateb i gyfraddau chwyddiant yn rhoi cryn bwysau ar gyllidebau presennol aelwydydd. Roedd llawer o ymatebwyr yn gyndyn o dalu mwy gan eu bod yn teimlo bod arian yn cael ei "wastraffu" ac y dylai "cyllidebau gael eu rheoli'n fwy effeithiol" yn hytrach na rhoi'r "baich ar y cyhoedd" i dalu mwy. Gwnaeth rhai ymatebwyr hefyd sylwadau ar "werth" a "chostau" rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Hefyd, mynegodd llawer o ymatebwyr nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael "gwasanaeth digonol" gan yr heddlu ac, o ganlyniad, roeddent yn gyndyn o gefnogi unrhyw gynnydd pellach tuag at gyllid yr heddlu. Mae'r adborth isod yn dangos rhai o'r pwyntiau hyn ymhellach:

> *Gyda'r holl bwysau ar gostau byw, colli swyddi, chwyddiant a chyfraddau llog, gall cynyddu unrhyw gost fisol fod yn niweidiol iawn i aelwydydd – yn enwedig y rhai sy'n gweithio.*

> *Mae'n annheg codi trethi'r cyhoedd pan fo llawer o arian yn cael ei wastraffu yn yr heddlu o hyd a allai gyfrif am swm sylweddol o hyn.*


> *Nid yw'r heddlu'n helpu cymunedau'n ddigon da ar hyn o bryd yn fy marn i ac rwy'n credu y bydd y broblem hon yn gwaethygu os bydd yn cael mwy o arian*

> *Rwy'n teimlo bod 0.7% o'r gyllideb, tua £2.7 miliwn, i ariannu tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn swm gwarthus o arian y gellid ei fuddsoddi yn rhywle arall.*


## 5. Demograffeg

Mae casglu data ar amrywiaeth yn ein helpu i ddeall y cymunedau rydym yn eu cyrraedd ac amrywiaeth ymatebion. Nid oedd yn orfodol i ymatebwyr ateb y cwestiynau hyn. Caiff y crynodeb demograffig o ymatebwyr a rannodd y wybodaeth hon â ni ei amlinellu isod:


### Proffil Oedran yr Ymatebwyr





### Rhywedd yr Ymatebwyr





### A yw eich rhywedd yr un peth â'r rhywedd a bennwyd i chi ar adeg eich geni?




### Cyfeiriadedd Rhywiol - Ymatebwyr




### Ymatebwyr - Ethnigrwydd




### Anabledd - Ymatebwyr

